



Rhys ab Owen AS
Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru
Rhys.abOwen@senedd.cymru

07 Hydref 2021

Annwyl Rhys ab Owen AS,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'ch Cwestiwn Llafar ar 22 Medi 2021 ynghylch adolygiad cyfredol y Comisiwn Ffiniau o etholaethau Cymru ar gyfer etholiadau Senedd y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod swyddogaeth gyfansoddiadol bwysig i gynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae ASau Cymru yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o graffu ar Lywodraeth y DU ac wrth gynrychioli buddiannau Cymru yn San Steffan.

Rydym wedi dweud yn 'Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU' y dylai pob deddfwrfa yn y DU fod yn gyfrifol am benderfynu ar ei threfniadau etholiadol ei hun, ac felly ni wnaethom ymyrryd ym mhroses Senedd y DU, drwy Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020, o gynnal adolygiad o'r ffiniau yn seiliedig ar gwota etholiadol a fyddai'n anochel yn lleihau nifer y seddi yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn trafod polisïau etholiadau yn rheolaidd gyda Llywodraeth y DU ar lefel Gweinidogion a lefel swyddogion.

Fodd bynnag, ein barn ni, fel y nodwyd hefyd yn 'Diwygio ein Hundeb', yw y dylid pennu'r ffordd y dyrennir seddi i bob rhan o'r DU ar lefel sy'n briodol yn gyfansoddiadol ac yn wleidyddol er mwyn gwarantu llais a chynrychiolaeth effeithiol i Gymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar ôl i waith y Comisiwn Ffiniau gael ei gwblhau, bydd hynny'n golygu na fydd yr etholaethau ar gyfer etholiadau Senedd Cymru a Senedd y DU yn cydffinio. Bydd angen i hyn fod yn un o'r ffactorau a fydd yn cael eu hystyried yng ngoleuni barn Senedd Cymru ar ddiwygio ei system etholiadol ei hun.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution